



Ysgol Rhydypennau  
Hydref 2017

## Ysgol Rhydypennau: Polisi



### Disgyblaeth Plant yn cynnwys atal bwlio

Mabwysiadwyd y Polisi hwn ar	Hydref 23ain 2017
Arwyddwyd: Cadeirydd y Llywodraethwyr	<i>Rh. Morgan</i>
Dyddiad Adolygu'r Polisi hwn	Hydref 2018
Pobl enwebedig i adolygu'r Polisi hwn	Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr

## YSGOL GYMUNEDOL RHYDYPENNAU

### POLISI DISGYBLAETH AC YMDDYGIAD

#### Nod a disgwyliadau

Un o brif amcanion Ysgol Rhydypennau yw bod pob plentyn o fewn yr ysgol yn cael ei werthfawrogi a'i barchu, a bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn dda. Rydym yn gymuned ofalgar, gyda'n gwerthoedd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch. Mae'r polisi felly wedi cael ei gynllunio i sicrhau fod holl aelodau'r ysgol yn byw a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gefnogol, ac mewn awyrgylch hapus a diogel.

Er bod gan yr ysgol nifer o reolau, nid amcan polisi disgyblaeth ac ymddygiad yw gorfodi rheolau, ond yn hytrach i hybu perthnasedd da fel y gall pobl weithio gyda'i gilydd er mwyn helpu pawb i '**Dyfu a Dysgu Gyda'n Gilydd**'. Mae'r polisi yn cefnogi cymuned yr ysgol yn ei nod i alluogi pawb i gydweithio mewn ffordd effeithiol a charedig. Mae'r ysgol yn disgwyl i bawb o fewn ei chymuned i ymddwyn mewn ffordd garedig tuag at ei gilydd. Rydym yn trin pob plentyn yn deg ac yn gweithredu'r polisi mewn ffordd gyson.

Nod y polisi yw galluogi plant i dyfu mewn awyrgylch ddiogel, ac i ddatblygu i fod yn aelodau positif, cyfrifol a mwy mwy annibynnol o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwobrwyo ymddygiad da, am y cred bod hyn yn datblygu ethos o garedigrwydd a chydweithrediad. Mae'r polisi wedi'i gynllunio i ddatblygu ymddygiad da, yn hytrach nag i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae canllawiau pellach ynglŷn ag amddiffyn plant ym mholisi Amddiffyn Plant yr Ysgol a hefyd canllawiau am gwrth-fwlio ym mholisi "Gwrth-fwlio'r Ysgol."

#### Gwobrwyo a chosb

Rydym yn canmol a gwobrwyo ymddygiad da mewn gwahanol ffyrdd:

- athrawon yn llongyfarch disgyblion
- athrawon yn gwobrwyo trwy roi sticeri
- plentyn yn cael ei enwebu mewn gwasanaeth wythnosol i dderbyn clod am ymdrechion arbennig neu am garedigrwydd
- mae'r plentyn a enwebwyd yn derbyn canmoliaeth a chlod yn y gwasanaeth boreol

- rydym yn gwobrwyo plant un ai am waith da / ymddygiad da cyson, neu i gydnabod ymgais arbennig neu weithredoedd caredig yn yr ysgol. Byddwn hefyd yn defnyddio sticeri i wobrwyo.

Mae'r ysgol yn cydnabod ymgais a llwyddiant y plant o fewn ac allan i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o ffyrdd addas i weithredu rheolau, ac i sicrhau awyrgylch dysgu diogel a phositif.

- Mae disgwyl i'r plant wrando'n ofalus i gyfarwyddid mewn gwersi. Os nad ydynt yn gwneud hyn gofynnir iddynt symud yn agosach at yr athro neu i eistedd ar ben ei hun.
- Disgwyliwn i'r plant wneud eu gorau ym mhob gweithgaredd, ac os na wnânt yna bydd gofyn iddynt ail-wneud gwaith.
- Os fydd plentyn yn tarfu ar wers yna bydd yr athro yn ceisio ei dawelu. Os fydd yn camymddwyn drosodd a throsodd yna bydd yn cael ei ynysu oddi wrth weddill y dosbarth tan y bydd yn tawelu ddigon i allu gweithio gydag eraill.
- Mae diogelwch y plant o'r pwys mwyaf ac os yw ymddygiad plentyn yn peryglu diogelwch eraill, yna bydd yr athro yn atal y weithgaredd ac yn gwahardd y plentyn rhag cymryd rhan pellach.
- Os fydd plentyn yn bygwth, dolurio neu fwlio plentyn arall, yna bydd yr athro dosbarth yn nodi'r digwyddiad ac yn cosbi'r plentyn. Os fydd plentyn yn parhau i ymddwyn mewn modd sy'n aflonyddu neu'n poeni eraill, yna bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni i drafod y sefyllfa er mwyn ceisio gwella ymddygiad y plentyn.

Mae'r athro dosbarth yn trafod rheolau'r ysgol gyda'i ddosbarth. Yn ychwanegol at reolau'r ysgol mae gan bob dosbarth gôd dosbarth mae'r disgyblion wedi cytuno iddo a bydd hwn yn cael ei arddangos ar wal y dosbarth. O ganlyniad i hyn bydd pob disgybl yn ymwybodol o'r ffordd i ymddwyn yn yr ysgol. Bydd unrhyw ymddygiad anghymdeithasol yn cael ei drafod gan y dosbarth cyfan yn ystod 'amser cylch' gyda'r athro dosbarth neu'r Pennaeth.

Nid yw'r ysgol yn goddef bwlio o gwbl. Os byddwn yn darganfod bod rhywun yn cael ei fwlio neu'i fygwth byddwn yn ymyrryd ar unwaith i atal ymddygiad o'r fath rhag digwydd eto. Er ei bod yn anodd dileu bwlio'n gyfan gwbl, gwnawn bob ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn dod i'r ysgol yn ddi-ofn.

Mae aelodau'r staff yn ymwybodol o reolau ynglŷn â defnyddio grym corfforol. Nid yw athrawon yr ysgol yn bwrw, gwthio, nac yn rhoi clipen i blant. Bydd staff yn ymyrryd yn gorfforol er mwyn rheoli plentyn, atal niwed i blentyn neu os yw plentyn mewn perygl o niweidio'i hunan, yn unol â chanllawiau ynglŷn â rheoli plant.

### **Rôl yr athro dosbarth**

Cyfrifoldeb yr athro dosbarth yw sicrhau bod rheolau'r ysgol yn cael ei gweithredu o fewn y dosbarth, a bod y plant yn ymddwyn mewn ffordd gyfrifol yn ystod gwersi. Mae gan athrawon dosbarth ein hysgol disgwyliadau uchel yn nhermau ymddygiad, ac maent yn gwneud eu gorau i sicrhau fod pob plentyn yn gwneud ei orau. Mae'r athro dosbarth yn ymdrin â phob disgybl yn deg ac yn sicrhau fod côd y dosbarth yn cael ei weithredu'n gyson. Mae'r athro yn trin y plant o fewn ei ddosbarth gyda pharch a dealltwriaeth.

Pan fydd plentyn yn camymddwyn droeon, bydd yr athro dosbarth yn nodi'r digwyddiadau ac yn delio gyda digwyddiadau o'r fath, ond os bydd y camymddwyn yn parhau yna bydd yn gofyn i'r pennaeth am gymorth a chynghor. Bydd yr athro dosbarth yn cysylltu ag asiantaethau allanol, os bydd angen, i arwain datblygiad y plentyn. Er enghraifft gall yr athro drafod anghenion y plentyn gyda gweithwyr cymdeithasol addysg neu dîm ymddygiad yr ALI. Mae'r athro dosbarth yn adrodd am gynnydd y plentyn wrth ei rheini, yn unol â pholisi ysgol-gyfan. Bydd hefyd yn cysylltu â'r rhieni os yw'n gofidio am ymddygiad neu les y plentyn.

### **Rôl y Pennaeth**

Cyfrifoldeb y pennaeth yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yw gweithredu'r polisi yn gyson drwy'r ysgol, ac i adrodd i'r llywodraethwyr yn ôl y galw am effeithiolrwydd y polisi. Cyfrifoldeb y pennaeth hefyd yw iechyd, diogelwch a lles pob plentyn o fewn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn cefnogi'r staff drwy weithredu'r polisi, gosod safon ymddygiad a chefnogi'r staff i weithredu'r polisi.

Mae'r pennaeth yn cadw cofnod o bob achos o gamymddwyn difrifol mae'n ymwybodol ohono.

Cyfrifoldeb y pennaeth yw gwahardd disgybl am gyfnod penodol yn dilyn ymddygiad gwael. Os fydd plentyn yn parhau i ymddwyn yn anghymdeithasol neu mewn achosion o gamymddwyn difrifol gall y

pennaeth wahardd y disgybl yn barhaol. Bydd hyn yn digwydd ar ôl hysbysu'r llywodraethwyr.

### **Rôl y rhieni**

Mae'r ysgol yn cydweithredu gyda rhieni, er mwyn sicrhau fod plant yn derbyn negeseuon cyson ynglŷn â'u hymddygiad yn y cartref ac yn yr ysgol. Mae gennym gytundeb cartref-ysgol sy'n cael ei arwyddo'n flynyddol gan y plant, rhieni a'r pennaeth. Mae esboniad o reolau'r ysgol ym mhrosbectws yr ysgol, a disgwyl i rieni ddarllen a dangos cefnogaeth i'r rhain. Rydym yn disgwyl i rieni gefnogi addysg eu plant, ac i gydweithredu â'r ysgol yn unol â'r cytundeb cartref-ysgol. Rydym yn ceisio adeiladu perthynas gefnogol rhwng y cartref a'r ysgol, ac rydym yn siarad â rhieni ar unwaith os ydym yn gofidio am les neu ymddygiad plentyn. Os yw'r ysgol yn gorfod cosbi plentyn mewn ffordd resymol, dylai'r rhieni gefnogi'r gosb. Os yw rhieni yn gofidio am sut yr ymdrinnir â'i blentyn yna dylent gysylltu â'r athro dosbarth yn y lle cyntaf ac os ydynt yn dal yn anhapus yna dylent gysylltu â'r llywodraethwyr. Os na fydd y trafodaethau hyn yn datrys y sefyllfa yna gellir mynd drwy broses mwy swyddogol.

### **Rôl y llywodraethwyr**

Cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw gosod canllawiau ar safonau disgyblaeth ac ymddygiad, ac i adolygu'u heffeithiolrwydd. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth i weithredu'r polisi.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi o ddydd i ddydd, ond gall y llywodraethwyr gynnig cyngor yn enwedig ar faterion disgyblaeth. Rhaid i'r pennaeth gofio hwn wrth gymryd penderfyniadau ynglŷn ag ymddygiad.

### **Gwahardd penodol a parhaol**

Dim ond y pennaeth (neu'r pennaeth dros dro) sy'n gallu gwahardd plentyn o'r ysgol. Gall y pennaeth wahardd disgybl am un cyfnod neu fwy, am hyd at 45 diwrnod o fewn blwyddyn ysgol. Gall y pennaeth hefyd wahardd disgybl yn barhaol. Gall y pennaeth hefyd newid gwaharddiad am gyfnod penodol i waharddiad parhaol os yw amgylchiadau yn gwarantu hyn. Os yw'r pennaeth yn gwahardd plentyn, rhaid hysbysu'r rhieni ar unwaith gan roi rheswm. Rhaid hefyd iddo, sicrhau bod y rhieni yn deall y gallant apelio yn erbyn y penderfyniad wrth y corff llywodraethol, a dylid esbonio sut i wneud hynny.

Dylai'r pennaeth roi gwybod i'r ALI os yw'n gwahardd plentyn yn barhaol neu am unrhyw achosion o wahardd am gyfnod penodol sy'n fwy na pum diwrnod o fewn unrhyw dymor. Ni all y corff llywodraethol wahardd disgybl nag ychwaith ymestyn cyfnod y gwaharddiad. Mae gan y corff llywodraethol bwylgor disgyblaeth sy'n cynnwys rhwng tri a pum aelod. Y pwylgor sy'n ystyried unrhyw apeliadau ar ran y corff llywodraethol. Pan fydd panel apêl yn cwrdd i ystyried gwaharddiad, byddant yn ystyried y rheswm am y gwaharddiad, sylwadau'r rhieni a'r AALI cyn penderfynu a ddylai'r plentyn ddod nôl i'r ysgol. Os fydd y panel apêl y llywodraethwyr yn penderfynu y dylai plentyn ddod nôl i'r ysgol yna bydd yn rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â hyn.

### **Monitro**

Mae'r pennaeth yn monitro effeithiolrwydd y polisi yn rheolaidd. Mae hefyd yn adrodd i'r corff llywodraethol ar effeithiolrwydd y polisi ac, os oes angen, yn cynnig argymhellion i wella'r polisi ymhellach. Mae'r ysgol yn cadw cofnodion amrywiol o gamymddwyn. Mae'r athro dosbarth yn cadw cofnod o ddigwyddiadau bach, ac mae'r pennaeth yn cadw cofnod os yw plentyn wedi'i anfon ato/hi o ganlyniad i gamymddwyn. Rydym hefyd yn cofnodi digwyddiadau sy'n digwydd adeg egwyl a bydd goruchwylwyr amser cinio yn ysgrifennu manylion am unrhyw ddigwyddiad yn y llyfr digwyddiadau sy'n cael ei gadw yn yr ystafell staff.

Mae'r pennaeth yn cadw cofnod am unrhyw blentyn sy'n cael ei wahardd am gyfnod penodol neu'n barhaol. Cyfrifoldeb y corff llywodraethol yw monitro faint o blant sy'n cael eu gwahardd, ac i sicrhau fod polisi'r ysgol yn cael ei weithredu'n deg ac yn gyson.

### **Adolygu**

Mae'r corff llywodraethol yn adolygu'r polisi bob dwy flynedd. Gall y llywodraethwyr adolygu'r polisi ynghynt os yw'r llywodraeth yn cyflwyno rheolau newydd, neu os yw'r corff yn derbyn awgrymiadau ar sut i wella'r polisi.